AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 240 Chwefror – Mawrth 2023

# Gwyliedydd



# O'R GADAIR ARALL

Parchedig Ddr Stephen Wigley



Annwyl Gyfeillion,
Ar ryw olwg mae'n rhyfedd fy mod yn anfon cyfarchion at ddarllenwyr y *Gwyliedydd* am y tro cyntaf nawr, oherwydd yr haf hwn byddaf yn rhoi'r gorau i fod yn un o gadeiryddion Synod Cymru Wales. Cyn hynny bûm yn gadeirydd Wales Synod am ryw 16 mlynedd. Ond mae'n gyfle da i fyfyrio am yr holl bethau sydd wedi digwydd dros y cyfnod hwn ac i ddiolch i Dduw am ei ddaioni a'i ffyddlondeb.

Byddaf bob amser yn synnu o feddwl am y wyrth rasol a olygodd fod mod i rywsut wedi dod i Gymru yn weinidog. O eglwys fechan yn Battersea yng nghanol Llundain yr ymgeisiais am y weinidogaeth. Cefais fy nerbyn i goleg ecwmenaidd Queen's yn Birmingham, ac i ffwrdd â fi yno ar y trên. Roeddwn yn disgwyl mai i rywle amlddiwylliannol mewn dinas, tebyg i'r llefydd roeddwn yn gyfarwydd â nhw yn Llundain a Birmingham, y cawn fy anfon maes o law yn weinidog.

Ond fel sy'n digwydd yn aml, cynlluniau gwahanol oedd gan Dduw. Yn Queen's dyma fi'n cwrdd â Jenny, oedd yn hyfforddi i fod yn Ddiacon yn Esgobaeth Llanelwy yr Eglwys yng Nghymru. Mae'n rhaid i mi gyfaddef nad oeddwn ar y pryd yn ymwybodol fod yr Eglwys yng Nghymru yn dalaith wahanol o fewn y cymundeb Anglicanaidd, wedi ei datgysylltu oddi wrth Eglwys Loegr – ond buan iawn y dysgais am hyn oll wrth i'n cynlluniau ninnau newid yn llwyr.

Yn hytrach na mynd i fyw mewn dinas fawr yn Lloegr, fe'm cefais fy hun yn ŵr i giwrad ac yn byw yn Llangollen am y ddwy flynedd gyntaf wedi inni briodi (a finnau'n parhau i ddilyn cwrs yn Queen's). Yna bûm yn weinidog yn y Mwmbwls (Cylchdaith Abertawe a Gŵyr), wedyn Aberystwyth (yng Nghylchdaith newydd Ceredigion). Ar ôl hynny, Abertawe unwaith eto, cyn mynd yn arolygwr Cylchdaith Caerdydd a byw yn y Rheithordy yn Radur lle roedd Jenny'n gwasanaethu fel Rheithor.

Felly drwy gydweithrediad rhwng yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys yng Nghymru, ac ychydig bragmatiaeth o'n rhan ninnau, cawsom fod yr Eglwys wedi ein hanfon i wasanaethu yn rhai o'r mannau hyfrytaf yng Nghymru. Cefais brofiad da yn sgil hyn oll, a hynny'n gymorth mawr pan gefais fy mhenodi yn 2007 yn Gadeirydd Wales Synod (a ddaeth i fodolaeth bryd hynny pan unwyd Taleithiau Gogledd a De Cymru). Cyfle i ymgyfarwyddo ymhellach â gyrru drwy gefn gwlad ysblennydd Cymru!

Yn y blynyddoedd ers hynny, rydym wedi cydweithio mwyfwy gyda Jennie Hurd a Synod Cymru, ac rwyf wrth fy modd fod y ddwy Synod wedi cytuno i ddod ynghyd ers mis Medi diwethaf gan ffurfio Synod Cymru Wales. Ar hyn o bryd rwy'n paratoi i drosglwyddo'r awenau i'r Parchedig Andrew Charlesworth, y darpar Gadeirydd newydd sydd am fy olynu i a chydweithio â Jennie o fis Medi nesaf ymlaen.

Ond wrth edrych yn ôl fe welaf hefyd law Duw yn ein holl wahanol symudiadau a'n gweinidogaeth mewn gwahanol rannau o Gymru, byth ers inni symud i Langollen yn 1987. Er enghraifft, fel arolygwr y gylchdaith ddwyieithog gyntaf yng Ngheredigion yn 1994, cydweithiais â'r Diacon Gwenllian a bu hynny o gymorth i mi ddeall ac ymuno yn y trafodaethau a arweiniodd, rhyw 30 mlynedd yn ddiweddarach, at sefydlu Synod Cymru Wales.

Felly fe ddysgais yn ystod fy ngweinidogaeth na ddylem synnu os bydd cynlluniau Duw yn troi allan i fod ychydig yn wahanol i'n cynlluniau ni. Yng nghynllun achubol Duw nid oes dim yn cael ei wastraffu ac felly fe welwn fod profiad o weinidogaeth yn y naill le o fudd mewn lle gwahanol yn nes ymlaen, a hefyd fod bwriadau Duw yn cymryd tipyn bach mwy o amser weithiau nag y byddwn ni'n gobeithio neu'n disgwyl, ond y bydd Duw yn cyflawni ei bwrpas yn y pen draw!

Efallai fod Duw yn siarad â chithau yn yr un modd.

Gyda dymuniadau gorau ar gyfer y Grawys a'r Pasg,
**Stephen**

## Nodyn gan Ffion



Gan fod Jennie ar gyfnod o seibiant ar hyn o bryd, gofynnais i'n Cadeirydd arall sef y Parchedig Ddr Stephen Wigley, a fyddai'n fodlon cyfrannu i'r rhifyn hwn. Cytunodd yn rasol iawn (gan ofyn i mi drosi'r ysgrif i'r Gymraeg) ac rwyf yn ddiolchgar iawn i Stephen am y gymwynas hon. Rwy'n siŵr y bydd pawb yn ymuno â mi i ddymuno'n dda i Stephen pan ddaw'r amser iddo adael ei benodiad presennol – a ninnau wedyn yn croesawu'r Parchedig Andrew Charlesworth atom i Gymru fis Medi nesaf.

Fel Cymry rydym yn wastad wedi bod yn bobl groesawus, ac erbyn hyn rydym yn swyddogol yn Genedl Noddfa, rhywbeth y gallwn yn sicr ymfalchïo ynddo mewn byd mor gythryblus. Wrth inni groesawu pobl o'r tu allan, mae'n rhaid inni wrth gwrs warchod ein hunaniaeth ein hunain yn ogystal â'n trysor pennaf sef yr iaith Gymraeg. Mewn gwahanol feysydd ym mywyd Cymru daeth dwyieithrwydd yn norm ers degawdau bellach, ac mae'r camau cyntaf wedi eu cymryd i wneud ein Synod newydd yn Dalaith ddwyieithog. Ar drothwy dydd gŵyl Dewi, llawenhawn ein bod yn cael byw mewn gwlad mor hyfryd. Mae'n rhaid wrth amynedd, wrth gwrs, gan nad yw newidiadau'n digwydd mor fuan ag y byddem weithiau'n dymuno. Yng ngeiriau Waldo yn niweddglo ei soned, *Cymru'n Un:*

Gobaith fo'n meistr; rhoed Amser inni'n was.



**Gwyliedydd**

**CYFNODOLYN CYMRAEG YR EGLWYS FETHODISTAIDD**

Sefydlwyd 1877
– Cyfres Newydd 1987

**RHIF 240**
**CHWEFROR – MAWRTH 2023**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"

***SYLWER AR Y NEWID YN ENW'R CYFRIF, OS GWELWCH YN DDA***

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
10 MAWRTH 2023

Llun y clawr gan Carl DeAbreu:
Y wawr yn torri ar Gymru

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

# Diolch

Diolch yn fawr am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd.*

| | |
|---|---|
| Elan Griffiths | £ 10-00 |
| Aluna Thomas, Llanfairpwll | £ 25-00 |
| Alwena Edwards, Llanfairtalhaiarn | £ 20-00 |
| Dienw | £100-00 |
| Dienw | £ 50-00 |
| Eifion Lloyd Jones (er cof am G. Edgar Jones, Porthmadog) | £ 25-00 |
| M. Griffith, Y Drenewydd | £ 25-00 |
| Emyr Evans, Coedpoeth | £ 25-00 |
| Y Diacon Stephen Roe | £ 25-00 |
| Y Parchg Dilys Jones | £ 20-00 |
| Alwyn ac Elizabeth Roberts, Llanfairpwll | £ 10-00 |
| Eryl Davies, Caerwys | £ 25-00 |
| June Cooper, Llanfairpwll | £ 10-00 |
| Capel Rehoboth, Llanbedrog | £200-00 |
| Capel Pendref, Dinbych | £100-00 |
| Hazel Jones, Rhuthun | £ 10-00 |
| Capel Hermon, Y Briw | £ 20-00 |
| Capel Horeb, Croesoswallt | £ 50-00 |
| Llyfrgell Caerdydd | £ 30-00 |
| **CYFANSWM** | £780-00 |

## Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch am y rhodd isod tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

Emyr a Gweryl Evans £25.00

Anfonwyd y swm hwn ymlaen yn enw Cylchdaith Cymru.

**Apêl Anrhegion Nadolig**: Diolch o galon i bawb, yn gyfranwyr 'hen' a 'newydd' sydd wedi cyfrannu i'r Apêl. Mae'r elusen yn werthfawrogol o haelioni aelodau a chyfeillion Cylchdaith Cymru. Aethpwyd â thri llond car o anrhegion i Longfields, swyddfa'r elusen yma yn Wrecsam, yn ogystal â £175 mewn talebau rhoddion.

Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth.

Marc a Margaret

Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF

☎ 01978 756717 cwrteden@gmail.com



## GWELLHAD BUAN

Pob dymuniad da am wellhad llwyr a buan i Robin Jones, cyd-olygydd y Gwyliedydd. Brysiwch wella, Robin!

# O'r Pen Yma



gan **Angharad Tomos**



Ers y Clo, rydw i'n fwy caeth i rwtîn, a dwi ddim yn siŵr sut i ddod allan ohoni. Mae pob dydd yn tueddu i fod yr un fath, ac rydw i fwy cyndyn o fynd allan, neu wneud rhywbeth yn fyrfyfyr. O ganlyniad – erbyn Chwefror, dwi'n anniddig. Yna, darllenais nofel fer Claire Keegan, 'Foster' (a addaswyd yn ffilm arbennig o dda, 'The Quiet Girl'). Does yna fawr yn digwydd yn y nofel Wyddelig hon, ond dyma ddarn ohoni:

'Mae Mrs Kinsella a minnau yn gwneud rhestr o dasgau, a mynd ati i'w cyflawni: codi'r riwbob, gwneud teisennau, peintio'r sgertin, golchi'r dillad gwelâu, llnau'r gwe pry cop, cadw'r dillad glân, pobi'r sgons, sgwrio'r bath, brwshio'r grisiau, poilshio'r dodrefn, berwi'r nionod ar gyfer y saws, codi'r chwyn ac wrth i'r haul fachludo, rydym yn dyfrio'r blodau...'

O'u hystyried fesul un, mae rhai o'r rhain yn dasgau diflas ac undonog, ond yng nghyd-destun y nofel, mae'r ferch yn cofio'r cyfnod hwn gyda hiraeth. Parodd hyn i mi feddwl. Pam na allwn wneud tasgau bach bob dydd heb gwyno a bod yn ddiolchgar amdanynt? Dwi am sgubo'r llawr bellach, a meddwl mor ffodus ydw i fod gen i gartref. Dwi am osod y tân a diolch fod gen i wres. Petawn yn ffoadur o Wcráin, rhain fyddai'r tasgau bach cyffredin y byddwn yn ysu am gael eu gwneud. Gallaf roi dillad ar y lein, a diolch am yr iechyd i wneud hynny. Cyn hir, bydd blodau yn dechrau blaguro, ac mi fedra i baratoi pryd o fwyd a mwynhau ei fwyta. Hyd yn oed ar noson stormus, gallaf edrych ymlaen am y Gwanwyn.

Faint o gynnwrf ydan ni ei angen mewn bywyd? Wedi pandemig byd-eang, tri prif weinidog Prydeinig mewn chydig fisoedd, marw brenhines a rhyfel giaidd, heb sôn am argyfwng costau byw ac argyfwng yr hinsawdd... ai cynnwrf ydyn ni'n ysu amdano? Ai blwyddyn dawel ydi'r peth i'w chwenychu yn 2023?

Gwers reit fuddiol ydw i wrthi'n ei dysgu ar hyn o bryd. Peidio cwyno yn ddyddiol a dweud 'Does dim byd yn digwydd'. Rydw i am geisio ymfodloni a bod yn ddiolchgar am dasgau bach bob dydd. Ni fyddai'n ddrwg o beth i mi ganolbwyntio mwy ar y tymhorau hefyd, a derbyn fod yna fendithion a threialon yn dod yn eu tro. Pa mor ddrwg bynnag ydi i arnom, mae hi wastad yn waeth yn rhywle arall.

Geiriau Waldo sy'n rhoi cysur:

'Yno wedi'r ystorm y cilia'r galon,
Mae'r byd yn chwâl.
Ond yn yr isel gaer mae gwiwer gwynfyd
Heno yn gwneud ei gwâl.'

## Y DIWEDDAR PHILIP DAVIES




Gyda thristwch mawr y clywyd y newyddion am farwolaeth John Philip Davies yn ei gartref yn Wrecsam ar 15 Medi 2022. Roedd y Dr Philip Davies, fel y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ei adnabod, yn adnabyddus am ei waith mewn sawl maes. Ym myd addysg fe fu'n athro a phrifathro yn ogystal â gwasanaethu yn ddiweddarach fel cadeirydd corff llywodraethu Ysgol Morgan Llwyd. Rydym ni yn yr Eglwys Fethodistaidd yn ei gofio yn anad dim am ei waith arbennig a diflino yn trafod cynlluniau ar gyfer dyfodol y gwaith Cymraeg. Ar adeg anodd yn ein hanes, cynigiodd Philip arweiniad a gweledigaeth a olygodd ein bod wedi gallu parhau fel Talaith Gymraeg ei hiaith hyd nes sefydlu'r Dalaith ddwyieithog bresennol a ddaeth i fod fis Medi'r llynedd.

Cydymdeimlwn yn fawr ag Eira, priod Philip, y merched Delyth a Branwen a'r wyrion, Lowri, Tomos a Deio a oedd i gyd mor annwyl yng ngolwg Philip.

## Cydymdeimlo

Yn y *Gwyliedydd* diwethaf cyhoeddwyd llun o Mrs Nansi Hughes yn dathlu ei phen-blwydd yn 102 oed. Yn fuan wedyn bu farw Mrs Hughes ac fe gydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled.

Ychydig cyn i'r *Gwyliedydd* fynd i'r wasg, ar Ionawr 14eg 2023 bu farw'r Parchedig Gwynfor Williams, Caernarfon, yn fuan wedi iddo golli ei briod Mrs Katie Williams. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu. Cyhoeddir coffâd iddo yn y rhifyn nesaf.








## Diolch a dymuniadau gorau

Diolch yn fawr i Gwyndaf Roberts am ei gyfraniad arbennig iawn i'r *Gwyliedydd* fel golygydd a cholofnydd dros lawer o flynyddoedd. Pob dymuniad da i chi, Gwyndaf.

## Gwasanaeth diflino





Mae'n anodd credu bod Wynn Williams, Tyddyn Dicwm, Tregarth wedi dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Rhoddodd Wynn flynyddoedd lawer o wasanaeth fel organydd yng nghapel Shiloh a mawr yw gwerthfawrogiad pawb ohono. Yr un yw'r gwerthfawrogiad o wasanaeth ei wraig Eirwen, a gwblhaodd yn ddiweddar gyfnod o ddeugain mlynedd yn gwasanaethu fel trysorydd yr eglwys. Diolch yn fawr i chi eich dau.





## Ffair Nadolig Pendref Dinbych

Llongyfarchiadau i Pendref ar ymdrech mor llwyddiannus (a hwyliog!) i godi arian.



# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### *Ardal Bathafarn*

**CYDYMDEIMLO**

Gyda gofid y clywsom am farwolaeth Eluned sef merch annwyl Mary a Dilwyn Jones, Glyndyfrdwy, mam gariadus i Cai ac Ellis a chwaer i Catherine, Bethan a Lisa. Cafwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch am ei bywyd dan ofal y Parchedig Jennie Hurd, gyda theyrnged arbennig gan Lisa a chyfraniad gan John Ogwen sef ewythr i Eluned. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â chi fel teulu o golli un annwyl gennych.

**NEWID AELWYD**

Dymuniadau gorau i Lorna Wynne a'i merch Janet yn eu cartref newydd yn Llanfair. Pob bendith a hapusrwydd i'r ddwy ohonoch.

**CYFARFODYDD BLYNYDDOL Y CAPELI**

Llawer o ddiolch i bawb am eu teyrngarwch i'r cyfarfodydd hyn. Cynhaliwyd pwyllgor swyddogion yr Ardal hefyd yn Rehoboth, Corwen dan arweiniad Elizabeth. Diolch i'r ysgrifennydd a'r trysorydd diwyd, Marian a Lucy, am eu gwaith. Braf oedd cael cwmni Arolygydd Cylchdaith Cymru sef y Parchg Ian Morris. Diolch i Marian am baratoi'r baned – hyfryd cael cymdeithasu â'n gilydd ar ôl trafod materion pwysig.

**DATHLU**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Glenys Hughes sydd wedi dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

**DYMUNIADAU GORAU**

Da deall fod Hywel Edwards, Glyndyfrdwy, bellach yn gwella ac wedi cael dod adref. Cofion anwylaf ato ef ac Enid ei briod, ac at eraill sydd yn dioddef o wahanol anhwylderau.

**OEDFAON**

Da oedd cael croesawu Margaret Morgan atom ddechrau Rhagfyr i sôn am Gweithredu dros Blant; cawsom gyfle i gyfrannu anrhegion Nadolig i blant sy'n cael cefnogaeth gan yr elusen. Yna yn ein gwasanaeth Nadolig braf iawn oedd cael arweiniad y Parchg Jennie Hurd. Cymerwyd rhan hefyd gan Elizabeth, Lowri, Gwyneth a Beryl. Diolchwyd i bawb gan Lucy.

Hyfryd oedd cael dod at ein gilydd fel eglwysi tref Rhuthun i oedfa Cymun Bore Nadolig dan arweiniad y Parchg Morus P. Morus. Ar ddechrau'r flwyddyn hefyd cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Undebol: mor bwysig yw ein bod yn cydaddoli.

**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

### *Bethel, Rhiwbeina*

**HELPU'R BANC BWYD**

Daeth nifer dda o aelodau a ffrindiau i gefnogi Bore Coffi yn y capel a thrwy'r ymdrech hon codwyd dros £700 tuag at waith y Banc Bwyd.

**GWASANAETH ARBENNIG**

Bu'r côr yn ymarfer drwy fis Rhagfyr a chawsant gyfle i gyflwyno pedair carol yn y gwasanaeth Nadolig ar Ragfyr 18. Diolch i Gwilym Roberts am ei waith fel organydd ac am drefnu'r côr. Pleser mawr hefyd oedd cael cwmni organydd gwadd ar gyfer y gwasanaeth Nadolig sef y cerddor adnabyddus Alun Guy. Roeddem wrth ein boddau o weld cynifer o blant yn y gwasanaeth a mwynhau eitemau ganddynt. Diolch i Siân a Trystan Francis am ddod â'r plant ynghyd wedi cyfnod hir hebddynt, ac i bawb am gymryd rhan yn y gwasanaeth. Wedi'r oedfa mwynhawyd mins pei ac ymweliad Siôn Corn. Cawsom gyfle arall i gymdeithasu pan aeth 26 ohonom i fwynhau cinio Nadolig blasus mewn bwyty lleol a braf oedd cael cwmni ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan, ar yr achlysur pleserus hwn.

**GOHEBYDD .** GWENDA FRANCIS

### *Ebeneser, Eglwysbach*

**LLONGYFARCHIADAU**

Llongyfarchiadau mawr oddi wrth y teulu a phawb yn Ebeneser i Miriam Hughes, Tu Hwnt i'r Fawnog ar basio yn M.R.I.C.S. (Aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig).

**CYMDEITHAS CAPELI EGLWYSBACH**

Nos Wener Tachwedd 18 yn festri Bethania daeth Osian Bryn Hafod a Caradog Tu Hwnt i'r Fawnog i adrodd hanes eu taith i Chicago a dangos lluniau. Yn ystod y daith buont yn ymweld â gwahanol ffermydd: yn un ohonynt sef Four Oaks, roeddent yn godro 36,000 o wartheg – dyna agoriad llygad! Mewn fferm arall roeddent yn cadw 4,000 o hychod magu. Teithiodd Osian a Caradog i Oklahoma i'r gorllewin gwyllt lle gwelsant y cowbois yn trin eu hanifeiliaid gyda'u rhaffau. Talwyd y diolchiadau gan Deryl. Noson arbennig a phawb wedi mwynhau.

**PARTI NADOLIG**

Ar ddydd Sul Rhagfyr 11 cawsom barti Nadolig. Diolch i Siôn Corn am alw gydag anrhegion i'r plant ac i bawb am eu gwaith. Braf oedd croesawu 'r Parchedig Marc Morgan a'i wraig Margaret atom.

**GOHEBYDD .**
CHARLES CRAPPER





### *Pendref, Dinbych*



**OEDFAON**

Yn ystod Tachwedd a Rhagfyr cawsom oedfaon bendithiol dan ofal yr Hybarch Bernard Thomas, Royce Warner a'n gweinidog y Parchedig Marc Morgan. Dydd Sul Rhagfyr 12fed cawsom oedfa garolau a braf oedd cael cwmni Marc a Margaret a oedd ar eu ffordd i gyhoeddiad arall. Bore Sul y Nadolig cawsom oedfa fer hynod o fendithiol dan arweiniad ein gweinidog a Margaret.

Cynhaliwyd hefyd Gyfarfodydd Gweddi dan arweiniad rhai o aelodau'r capel a mawr yw ein diolch iddynt am eu gwasanaeth. Blaenor mis Tachwedd oedd Medwyn Jones gyda Hywel Evans yn gofalu am fis Rhagfyr. Diolch i Vera Savage a Marjorie Williams am gyfeilio ac i Gwyn Williams am arwain y canu. Yn ystod cyfnod yr Adfent a'r Nadolig paratowyd y preseb gan Gwyn a Sylvia a mawr yw ein diolch i'r ddau am eu gwaith. Diolch hefyd i Bethan Roberts am drefnu pum cannwyll yr Adfent. Rydym yn cofio am yr aelodau sydd ar hyn o bryd, am wahanol resymau, yn methu mynychu'r oedfaon, gan ddymuno'n dda iddynt.

**MARCHNAD NADOLIG**

Dydd Gwener Tachwedd 25ain cawsom gyfle i gynnal stondin ym Marchnad Nadolig tref Dinbych yn Neuadd y Farchnad. Roedd yn ddiwrnod hir ond llwyddiannus gydag elw ariannol eithaf sylweddol. Diolch i'r aelodau a ofalodd am y stondin ac i'r Parchg Marc a Mrs Margaret Morgan am eu cefnogaeth ar y diwrnod.

**GWEITHREDU DROS BLANT**

Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael at Apêl Casglu Anrhegion Gweithredu dros blant. Aeth ein gweinidog â llond car o anrhegion o'r capel.

**TYWYDD MAWR**

Yn dilyn y tywydd rhewllyd cyn y Nadolig, gwnaed rhywfaint o ddifrod i nenfwd y Festri Fawr a bu'n rhaid gwneud gwaith atgyweirio.

**ADNEWYDDU'R CYFAMOD**

Ar Sul y 1af o Ionawr 2023 cynhaliwyd oedfa Adnewyddu'r Cyfamod. Braf oedd meddwl ei bod hi'n 221 o flynyddoedd i'r diwrnod ers pan agorodd Pendref ei ddrysau am y tro cyntaf a'n bod yn dal i addoli yn y capel, gan barhau hefyd â'r gwasanaeth arbennig yma yn ôl y traddodiad Wesleaidd.

Dymuniadau gorau ar ddechrau blwyddyn i'n haelodau a'r cyfeillion sydd yn cydaddoli â ni ac sydd mor gefnogol, a hefyd i holl ddarllenwyr y *Gwyliedydd*.

**GOHEBYDD .** MARY JONES

### *Ebeneser, Treuddyn*

**PROFEDIGAETH**

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Mrs Carys Huxley yn ei cholled fawr ym marwolaeth ei hannwyl ŵr Gordon a thad y diweddar Stephen. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng nghapel Ebeneser ar ddydd Gwener, Tachwedd 25ain, 2022 dan ofal y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans gyda Mrs Margaret Roberts wrth yr organ. Rhoddwyd i orffwys ym Mynwent y Rhos, Treuddyn.

**GWASANAETHAU**

Ein gwasanaeth cyntaf yn 2023 oedd Gwasanaeth Adnewyddu'r Cyfamod ar yr 8fed o Ionawr dan ofal y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans. Fe wnaethom hefyd groesawu a diolch i Owain Morgan a'r Parchedig Marc Morgan am eu gwasanaethau yn ystod Ionawr a Chwefror.

**DYMUNIADAU GORAU**

Hoffem ddymuno iechyd da i aelodau a ffrindiau'r capel yn ystod y flwyddyn newydd 2023.

**GOHEBYDD .**
GLENYS DAVIES

### *Shiloh Newydd, Tregarth*

**NEWYDDION TRIST**

Daeth y newyddion trist ar 26 Rhagfyr am farwolaeth Mrs Katie Williams ac yna ar 14 Ionawr am farwolaeth ei phriod sef y Parchedig Gwynfor Williams, ein cyn-weinidog. Anfonwn ein cydymdeimlad fel capel at eu merched Delyth ac Eurgain a'r teulu oll.

Bu farw Bethan Wyn Jones-Puw ar 25 Rhagfyr, a hithau'n 54 mlwydd oed. Roedd yn ferch i'r ddiweddar Helen, aelod ffyddlon yma, ac Elfed. Cydymdeimlwn â theulu Bethan. Yr un yw ein cydymdeimlad ag Olwen Jones, y bu farw ei mam yng nghyfraith yn ddiweddar.

**GENEDIGAETH**

Llongyfarchiadau i Angharad a Gerallt Jones ar ddod yn nain a taid unwaith eto. Ganed mab bychan, Gerallt Jac, i Gethin ac Angharad.

**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

# Ymweliad Llywydd y Gynhadledd

Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd eleni yw'r Parchedig Graham Thompson a'r Is-lywydd yw Anthony Boateng. Yn eu blog ar wefan yr Eglwys Fethodistaidd cawn dipyn o hanes eu blwyddyn yn y swydd (https://www.methodist.org.uk/about-us/news/the-president-and-vice-president-of-the-conference/the-blog-of-the-president-and-vice-president-of-conference/). Un peth y mae disgwyl iddynt ei wneud yw ymweld â gwahanol rannau o'r Cyfundeb; yn wir mae Rheol Sefydlog 110[3] yn nodi bod eu swyddogaeth yn cynnwys ymweld â Thaleithiau a Chylchdeithiau er mwyn cryfhau'r cysylltiadau rhyngom i gyd fel Cyfundeb. Yn ôl y Llywydd, dyma'r rhan o'r gwaith sydd hefyd wedi dod â'r calondid mwyaf iddo.

Ar ddiwedd mis Tachwedd, cawsom y fraint o groesawu'r Parchedig Graham Thompson i Gymru. Dyma a ddywedodd rhai o'r bobl wnaeth ei gyfarfod:

*"Pleser oedd cael croesawu Llywydd y Gynhadledd atom i oedfa'r prynhawn yng nghapel Carmel, Moelfre, Abergele. Roedd yn braf cael cyfle i wrando arno yn rhannu â ni rai hanesion am bethau diddorol y mae wedi eu profi yn rhinwedd ei swydd. Diolch hefyd i'r Parchedig Jennie Hurd am ei rhan yn arwain yr oedfa ac am ei gwasanaeth diflino, fel arfer."*



**Iona Williams, Carmel, Moelfre, Abergele**

*"Ar 27 Tachwedd cawsom y pleser a'r anrhydedd o groesawu dau o arweinwyr yr Eglwys Fethodistaidd yn Horeb, Bae Colwyn. Yn cynnal yr oedfa roedd y Parchedig Ddr Jennie Hurd, Cadeirydd Synod newydd ddwyieithog yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru ac yn bresennol hefyd roedd y Parchedig Graham Thompson, Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd. Er ei bod yn debygol mai dyma'r gwasanaeth arferol olaf a gynhelir yn Horeb, roedd yn achlysur llawn llawenydd."*



**Arfon Williams, Horeb, Bae Colwyn**




Cafodd y Llywydd gyfle hefyd i ymweld â nifer o lefydd diddorol yng Nghymru gan gynnwys maes y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd.

# Neges o Gylchdaith Unedig Pen-y-bont ar Ogwr

gan y **Parchedig Richard Gillion**

Dyma ni bellach ym Mhorthcawl – ar ôl symud ddwywaith ers gadael Ardal Gwynedd a Môn yr haf diwethaf. O'r mans presennol mae golygfa o'r môr sydd ddim ond dau ganllath i ffwrdd. Rydym wedi cael ymwelwyr o Gasnewydd ac o Fryste, ond nid o weddill Cymru eto. Bydd croeso mawr i chi.

Mae Cylchdaith Pen-y-bont ar Ogwr yn Ardal Unedig rhwng yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys Ddiwygiedig



Unedig. Mae'r gwaith bron yn gyfan gwbl yn Saesneg, ac wrth ddathlu'r Adfent a'r Nadolig fe welais eisiau'r plygeiniau, y carolau a'r emynau Cymraeg. Serch hynny, rwyf wedi canu *O Iesu mawr rho d'anian bur, Ar gyfer heddiw'r bore* a *Wele cawsom y Meseia* mewn gwasanaethau.

Mae cryn nifer o bobl sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal a hefyd mae un o'm haelodau yn Gymro o Sir Fôn, sy'n gwneud i mi deimlo'n gartrefol. Mae dau grŵp sgwrsio Cymraeg yn cyfarfod yn y cyffiniau, un yn Llyfrgell Abercynffig a'r llall yn festri Smyrna, capel y Bedyddwyr, Pen-y-fai. Mae grŵp Smyrna'n cael ei drefnu gan Jeff Jones (yng nghanol y llun), un o'n haelodau Methodistaidd.

Rwyf yn gwerthfawrogi'n cysylltiadau â chapeli Cymraeg ym Mhorthcawl, Noddfa (y Bedyddwyr) a'r Tabernacl (yr Annibynwyr).

Yn y gylchdaith mae gennym gapeli gwledig gyda niferoedd bach iawn o aelodau ac eglwysi trefol gyda llawer o weithgareddau. Rhennir yr efengyl mewn gair a gweithred, gan unigolion a grwpiau a thrwy ddigwyddiadau Eglwys neu Ardal gyfan. Mae gennym lawer o gyfleodd i estyn allan i'r gymuned yma ym Mhorthcawl a thrwy'r Ardal, y rhan fwyaf yn Saesneg ond weithiau yn Gymraeg hefyd. Fy unig broblem yw fod y Cymry Cymraeg yma yn dweud 'mod i'n swnio fel Gog!

# Y Beibl Gwau

gan **J.R. Jones**

Cawsom ni yng Nghapel y Triniti, Pontarddulais bleser mawr o gydweithio â Chapel Wesley sef y Methodistiaid Saesneg, er mwyn cynnal arddangosfa fawr y Beibl Gwau yma yn y Triniti. Fe wnaeth Cylchdaith De-orllewin Cymru gais ar ran yr eglwysi Methodistaidd Cymraeg a Saesneg eu hiaith, i gael yr arddangosfa arbennig hon yn y Gylchdaith am fis. Bu'r cais yn llwyddiannus a daeth yr arddangosfa i'r Triniti am wythnos gyfan ganol Awst y llynedd. Nid oes gan Gapel Wesley adeilad mwyach, felly dyma gyfle gwych i ni gydweithio fel yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhontarddulais, ar drothwy cyfnod newydd o ddod yn nes at ein gilydd yn Synod Cymru Wales.

Sefydlwyd y Beibl Gwau gan aelodau Eglwys St George, Hartlepool, ac mae storïau'r Beibl wedi eu gwau yn hynod gelfyddyd ac effeithiol a'u gosod mewn golygfeydd priodol. Er mai dyma'r tro cyntaf i ni weld y Beibl Gwau yma yn y De, mae'r arddangosfa erbyn hyn wedi teithio dros Brydain gyfan ac yn adnabyddus i lawer. Mae'r modelau gwau yn portreadu dros ddeg ar hugain o olygfeydd o'r Beibl, gan ddweud y stori mewn ffordd hollol unigryw a newydd.





Cyrhaeddodd yr arddangosfa mewn bocsys niferus iawn ac mi roedd yn dipyn o dasg eu dadlwytho a'u hagor ac yna gosod y cynnwys yn ofalus ar y byrddau a baratowyd i'w derbyn. Penderfynwyd mai gwell fyddai gadael y gwaith hwn yn nwylo medrus a diogel Dr a Mrs Morris! Hwy hefyd wnaeth ymgymryd â'r dasg o'u pacio'n ofalus ar y diwedd, yn barod am y daith i'w man arddangos nesaf sef Stepaside yn Sir Benfro.

Mae'r lluniau hyn, sy'n dangos golygfeydd Y Ddafad Golledig a Moses a'r Deg Gorchymyn, yn rhoi syniad pa mor arbennig yw'r gwaith a pha mor ysblennydd yw'r arddangosfa.

Er bod pamffledi dwyieithog ar gael gyda phob model, yn disgrifio ac esbonio'r olygfa, roedd unigolion gwybodus hefyd ar gael i egluro ymhellach os oedd gofyn. Yn hyn o beth roeddem yn ddiolchgar am gefnogaeth aelodau o Eglwysi eraill y pentref. Dyma gyfle gwych i gydweithio mewn cenhadaeth. Yn anffodus, gan fod yr ysgolion ar gau ym mis Awst, nid oedd modd gwahodd disgyblion a staff ein hysgolion lleol i ymweld â'r arddangosfa a thrueni am hyn gan fod yr arddangosfa yn dangos storïau'r Beibl mewn dull cyfeillgar ac yn cyfleu'r neges Gristnogol yn ddeniadol iawn i lygad yr ifanc – efallai rhywbryd eto yn y dyfodol?

Yn sicr bu'r arddangosfa yn llwyddiant, gan dynnu sylw at y bywyd Cristnogol a dangos y posibiliadau ar gyfer cydweithio fel eglwysi sy'n rhan o'r Synod Ddwyieithog newydd. Mae ein dyled yn fawr i Ian a Diane Morris am eu gwaith sylweddol a wnaeth yr achlysur yn un cofiadwy i bawb.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## *Ebeneser, Dolgellau*

### LLONGYFARCHIADAU
Llongyfarchiadau i Alan ac Alison Woodbridge sydd wedi dod yn daid a nain unwaith eto, i Joshua Steffan yng Nghaerdydd.

### CROESO
Ar ddydd Sul 20fed Tachwedd croesawyd aelod newydd, sef Mrs Doreen Thomas, a oedd gynt yn aelod yng nghapel Libanus, Y Ganllwyd.

### GWASANAETH NADOLIG
Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau bendithiol ar fore Sul 18 Rhagfyr gyda nifer o'r aelodau yn cymryd rhan. Yn anffodus bu'n rhaid gohirio'r cinio Nadolig y bwriadwyd ei gynnal y diwrnod hwnnw, ond fydd hi ddim yn rhy hwyr i fwynhau cinio a chracers yng nghwmni ein gilydd pan ddaw cyfle yn nes ymlaen!

**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

## *Salem, Rhyd y Foel*

### GWASANAETH NADOLIG DWYIEITHOG
Ddydd Sul Rhagfyr 18fed cynhaliwyd gwasanaeth undebol dwyieithog o dan ofal ein gweinidog y Parchedig Marc Morgan. Daeth nifer dda i gydaddoli â ni a chymerwyd rhan gan blant yr Ysgol Sul a hefyd Catherine, Angela, Ruth a Steffan, Beth, Debbie, Glenys a Margaret. Diolch i Anna, yr athrawes Ysgol Sul, a Ruth am ddysgu'r plant ac i Anna am ei gwaith wrth yr organ. Esther oedd yng ngofal yr ochr dechnoleg gan arddangos lluniau pwrpasol ar y wal yn ogystal â geiriau'r carolau, ac fe addurnwyd y capel yn hyfryd gan Esther a Iola. Anfonwyd y casgliad o £115.00 i Gweithredu dros Blant. Yn ystod mis Rhagfyr hefyd fe wnaethom anfon 23 kg o nwyddau i'r banc bwyd lleol.







Ar 30 Rhagfyr aeth plant yr Ysgol Sul a rhai oedolion i Theatr Clwyd i weld pantomeim Robin Hood. Mwynhawyd y sioe yn fawr iawn. Diolch i Esther am wneud y trefniadau.

### COFION
Anfonwn ein cofion at Wyn, Ty'n Ddol wedi iddo gael llawdriniaeth ar ei glun yn ddiweddar. Rydym yn falch iawn ei fod yn dod yn ei flaen yn dda yn dilyn y driniaeth. Llongyfarchiadau hefyd i John a Margaret, rhieni Wyn, ar ddod yn hen daid a nain ddechrau'r flwyddyn.

### PLYGAIN
Ar ddydd Sul 8 Ionawr cawsom oedfa fendithiol iawn yn seiliedig ar draddodiad y Plygain. Cymerwyd rhan gan Ieuan, Catherine, Kathleen a Siân. Cawsom ddarlleniadau pwrpasol ar gyfer y flwyddyn newydd a cherddoriaeth a lluniau yn ymwneud â'r Plygain. Mwynhawyd paned a sgwrs ar derfyn yr oedfa. Dechreuad arbennig i 2023.

**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## *Tabernacl, Llanfyllin*

### DATHLU'R 90
Mewn oedfa arbennig ar y Sul cyntaf o Ragfyr, llongyfarchwyd Mrs Winnie Evans ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Braf oedd cael cwmni aelodau o'i theulu yn yr oedfa. Cafwyd anerchiad pwrpasol ar thema 'Hapusrwydd' gan y Parchedig Andrew Evans. I ddilyn mwynhaodd pawb baned a chacennau blasus.

### PLYGAIN GYNTA'R TYMOR
Ddechrau Rhagfyr hefyd cawsom Blygain ardderchog gyda dwsin o unigolion, deuawdau neu bartïon yn cymryd rhan. Roedd y capel wedi cael ei addurno'n hardd gan ein horganydd, Mrs Llywela Roberts. Dechrau da iawn i dymor y Gwylie!

### BORE NADOLIG
Cafwyd oedfa Gymun dan ofal ein gweinidog ar fore Dydd Nadolig. Anfonwyd y casgliad o £40 at Gweithredu dros Blant. Dymuna Decia Blacker ddiolch am bob cyfraniad i'r elusen.

### GWASANAETH DECHRAU BLWYDDYN
Trefnwyd y gwasanaeth teuluol hwn gan Mrs Mair Elis a dewisodd 'Taith/Teithio' fel thema. Diolch i bawb a gymerodd ran.

### LLONGYFARCHIADAU
Llongyfarchiadau i Darren a Shan Mayor ar ddod yn daid a nain i Macsen, draw yn Llanfair Caereinion. Mae Macsen bach yn or-ŵyr i John a Pat Ellis. Dymuniadau gorau i'r teulu oll.

### PROFEDIGAETH
Trist iawn oedd colli un o aelodau'r Tabernacl ddiwedd Tachwedd, sef Mr Roger Davies. Bu Roger yn hael ei gyngor a'i wasanaeth gyda gwaith atgyweirio yn y Tabernacl. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei briod Linda ynghyd â Nia a Steve, Dylan a Ruth, Ryan a Dan a gweddill y teulu.

**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS



## *Bethel, Prestatyn*

### GWASANAETH NADOLIG Y PLANT A'R IEUENCTID
Dyma un o uchafbwyntiau ein blwyddyn ac roedd yn hyfryd gweld y capel yn llawn eto i ddathlu'r Nadolig. Diolch i Ffion am baratoi'r sgript a hyfforddi'r plant ac i Angela am baratoi'r plant ar gyfer yr eitemau cerddorol. Rydym yn wir ddiolchgar hefyd i'r rhieni am helpu'r plant i ddysgu eu rhannau ac am eu cefnogaeth ddiflino i'r Ysgol Sul. Yn dilyn yr oedfa mwynhawyd coffi a mins peis yn yr ysgoldy a braf oedd gweld yr hen a'r ifanc yn cymdeithasu. Cyflwynwyd anrhegion i'r plant a bocsys o fisgedi i'r aelodau hŷn. Gallwch ddilyn gweithgareddau'r Ysgol Sul ar dudalen 'Facebook' Ysgol Sul Bethel, Prestatyn.

### ER COF ANNWYL
Gyda thristwch mawr y cofnodwn farwolaeth ein chwaer annwyl, Mrs Eluned Owen, un a fu'n flaenor ac ysgrifennydd gweithgar a chydwybodol ym Methel am nifer fawr o flynyddoedd. Un o Brestatyn oedd Eluned yn wreiddiol ac fe'i haddysgwyd yn Ysgol Glyndŵr yn y Rhyl. Bu'n gweithio am flynyddoedd fel ysgrifenyddes gyda chwmni Crosville. Priododd â Maldwyn Owen yn 1958. Roedd Maldwyn yn berchennog siop ddillad ar y Stryd Fawr ym Mhrestatyn. Yn ystod ei phlentyndod bu Eluned yn byw am gyfnod yn Llanberis, rownd y gornel i'w hewythr Tomi, sef yr awdur enwog T. Rowland Hughes. Ar ôl ymddeol bu Eluned yn weithgar gyda nifer o elusennau lleol, yn arbennig Abbeyfield. Ewythr arall iddi oedd y Parchg J W Jones, Conwy. Roedd y capel a'i ffydd yn hollbwysig i Eluned ar hyd ei hoes; Cristion ymarferol oedd hi, gyda gair da a charedig am bawb. Roedd yn hoff o sgwrs, gyda gwên bob amser a chroeso



cynnes ar yr aelwyd. Bu'n ffyddlon i'r gwasanaethau ym Methel ac ar Suliau undebol yn Rehoboth ac yn aelod brwdfrydig o Gymdeithas y Chwiorydd "Hobeth." Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w chwaer Mrs Rowenna Hughes, ei chyfnither Mrs Gaynor Fox a'r teulu oll.

Trist iawn hefyd yw cofnodi marwolaeth Miss Ceridwen Jones. Yn wreiddiol o Picton, roedd Ceridwen yn aelod ac yn organydd yng nghapel Salem, Galltmelyd cyn ymuno â Bethel. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i theulu.

Diolchwn i Dduw am Eluned a Ceridwen. Diolch am eu ffyddlondeb i'w Gwaredwr ar hyd eu hoes.

### DYMUNIADAU GORAU
Dymunwn yn dda i'n holl aelodau sydd yn methu ymuno â'r oedfaon oherwydd gwaeledd. Mae Mrs Eluned Williams yn gwella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty a Geraint yn gwella erbyn hyn ar ôl cael clun newydd.

**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES







## *Jerwsalem, Wrecsam*

### CINIO ARBENNIG


Yn ôl ym mis Gorffennaf, pan ddathlwyd agoriad swyddogol y capel newydd yn Rhodfa Pen-y-Maes, penderfynodd y rhai sy'n mynychu o Sul i Sul y byddai'n braf cael mynd allan am bryd gyda'n gilydd. Cymerodd sawl mis cyn y llwyddwyd i drefnu dyddiad ond ar ddydd Gwener 16eg Rhagfyr cawsom bryd blasus gyda'n gilydd yn y Ramada yn Wrecsam. Diolch i Sheila Lloyd am ofalu am y trefniadau. Roedd yn achlysur braf iawn a phwy a ŵyr nad dyma'r cyntaf o sawl achlysur tebyg?

**GOHEBYDD .** MARGARET MORGAN

## *Cynfaen, Calcoed*

### GWASANAETH CAROLAU


Ar bnawn Sul Rhagfyr 4ydd cafwyd gwasanaeth carolau dwyieithog dan arweiniad y gweinidog y Parchg Marc Morgan a chymerwyd rhan hefyd gan Margaret Morgan. Ni fu'n bosibl i'n cyfeilydd arferol sef Geraint Roberts, Prestatyn, ddod y tro hwn gan ei fod yn gwella ar ôl llawdriniaeth ond fe anfonodd eilydd gwerth chweil yn ei le sef ei wraig, Angela – diolch yn fawr iawn iddi. Daeth nifer da i'r gwasanaeth a braf oedd cael croesawu cyfeillion Salem, Pentre Helygain atom. Wedi'r canu, braf oedd cael cyfle i gymdeithasu dros baned, mins pei a chacennau siocled.

**GOHEBYDD .** MARGARET MORGAN

# Llythyr at fy nhaid

## gan Prydwen Elfed-Owens

*[Llythyr dychmygol at John Huw Williams (1871 - 1944)]*



Annwyl Taid,

Alla i ddim credu mod i'n sgwennu'r llythyr hwn atoch a ninnau erioed wedi cyfarfod ein gilydd. Er na welson ni mo'n gilydd erioed, deuthum i'ch adnabod drwy'r Beibl Teuluol, y bocs lluniau, llythyrau a phapurau a etifeddais. Cefais ddarlun byw iawn ohonoch hefyd gan Nain (Jennie Williams, 1880-1970) gyda straeon lliwgar amdanoch fel golygydd *Y Dinesydd Cymreig* (1912-1925). Soniodd wrthyf am eich cerddi rhamantus iddi, yr hwyl a gawsoch yn actio yng Nghwmni Drama Ebeneser Caernarfon a'ch llwyddiant fel arweinydd Côr Plant Menai.

Byddwch yn falch o ddeall fod y Beibl Teuluol a gawsoch yn 1925 fel gwerthfawrogiad o'ch cyfraniad allweddol i'r *Dinesydd* yn ddiogel gen i. O'r manylion yn y Beibl hwn gwn ichi briodi Nain yn Ebeneser yn 1905 a threulio eich mis mêl yng Nghaer. Fe'ch codwyd chithau, fel eich tad o'ch blaen, yn flaenor ac yn bregethwr cynorthwyol. Cawsoch dri o blant sef Eirwen, Rhiannon a Huw David, fy nhad – aeth yn weinidog Wesle. Fe ddois innau i'r byd yn unig ferch iddo a'ch unig ddisgynnydd chi yn 1946.

### Cerfio pulpud Ebeneser

Gan Nain y clywais hanes eich rhieni, fy hen daid a nain. Treuliodd eich tad, Hugh Williams (1837-1905) o Lanrug, amser fel chwarelwr yn ardal Penygroes yn ei arddegau cynnar. Ymgartrefodd am gyfnod yn Rhostryfan lle cafodd dröedigaeth yng Nghapel Wesle'r pentref. Dychwelodd i Lanrug fel saer coed i Gastell Bryn Bras. Yno syrthiodd dros ei ben a'i glustiau am *housekeeper* y castell, Mary Jones, am ei bod mor ddarbodus yn diffodd canhwyllau'n gynnar. *Good catch!* Priodwyd hwy yn Ebeneser Caernarfon gan ymgartrefu wedyn a magu eu hunig fab, sef chi, yn Nhre'r Gof, reit tu ôl i'r capel. Yr Hugh Williams yma, gwerinwr cyffredin a saer coed dawnus, fu'n gyfrifol am gerfio pulpud godidog capel Ebeneser.


Yn blentyn ifanc byddwn wrth fy modd yn aros gyda Nain bob haf. Uchafbwynt yr wythnos fyddai cydgerdded i Ebeneser yn ein dillad gorau a hithau yn ei het ddu steilish a'i *fox fur*. Cerddwn fel brenhines heibio'r *Eagles*, y becws ac Engedi i eistedd yn sedd flaen Ebeneser. Ni chollai Nain gyfle i f'atgoffa mai fy hen daid greodd y pulpud ysblennydd! Ychydig a feddyliais y byddai fy nain a minnau, yn 1967, yn cydgerdded y tu ôl i arch fy nhad yn y capel hwn, ac yntau wedi marw yn ddim ond 53 mlwydd oed.

### Y papur wythnosol Cymraeg cyntaf

Cofi go iawn oeddech chi ynte, Taid, un o hogia'r dre! O'r Ysgol Rad, enilloch ysgoloriaeth i Ysgol Friars, Bangor ond mynd yn brentis wnaethoch chi i'r argraffydd a'r cyhoeddwr Hugh Humphreys yng Nghaernarfon. Yng nghwmni'r gŵr dawnus hwn mae'n sicr i chi gael cyfle heb ei ail i feithrin chwaeth at ddiwinyddiaeth a llenyddiaeth, gan osod sylfaen i'ch gyrfa.

Ymhen amser daethoch yn arolygydd, golygydd a chysodwr y *Dinesydd Cymreig,* menter newydd sbon oedd â'r bwriad o roi llais i'r gweithwyr. Ymddangosodd y rhifyn cyntaf ym Mai 1912 *(pris ceiniog, bob dydd Mercher)*. A dyma'r addewid roesoch yn rhifyn cyntaf papur wythnosol cyfrwng Cymraeg cyntaf Cymru.





*At y darllenydd*

Y mae gennym egwyddorion i ymladd trostynt er sicrhau tangnefedd a chysur i bob dyn, ac i roddi mwynhad a heddwch ymhob aelwyd yn ein gwlad. Wrth gwrs, bydd nod arbennig y papur i gyfeiriad llesol y dosbarth gweithiol, ac i amddiffyn eu hawliau. Gall pob gweithiwr fentro anfon ei gwynion atom a bydd ein colofnau at ei wasanaeth… bydd i grefydd a chrefyddwyr, ac i eglwys Crist gael eu parch yn urddasol ganddo. Yr ydym yn credu fod Cymru yn disgwyl am bapur o'r natur yma, modd y gall y gwerinwr a'r bonheddwr gael lle i fwrw ei feddyliau allan i ddwyn ei gwynion i'r amlwg… Na foed i'r Undebwyr bryderu mwyach, gan y gallant gael cyfaill ac arweinydd yn 'Y Dinesydd Cymreig'.

### Bod Leo

Leo oedd eich enw barddol, ynte, Taid, ac yn wir Bod Leo oedd enw eich tŷ. Mae'n amlwg bod y cawr o lenor Leo Tolstoy (1828-1910) wedi'ch cyffroi a'ch ysbrydoli. Un a anwyd i deulu dylanwadol a chyfoethog oedd Tolstoy. Yn ddyn ifanc aeth ar gyfeiliorn a cholli ffortiwn trwy gamblo, ond wedyn aeth ar bererindod i ganfod gwir bwrpas bywyd. Aeth o fod yn filwr i fod yn heddychwr rhonc wedi'r profiad hunllefus o ymladd yng ngwarchae gwaedlyd Sebastopol yn ystod rhyfel y Crimea. Gwnaeth Tolstoy bob ymdrech i leddfu dioddefaint anffodusion. Ar ôl methiant cnwd 1873, penderfynodd roi'r gorau i ysgrifennu am flwyddyn i drefnu cymorth ar gyfer y newynog gan ddweud 'Ni allaf rwygo fy hun oddi wrth realiti dynol i draethu am gymeriadau dychmygol.' Credai rhai ei fod – fel un o'r nofelwyr gorau'r byd – yn wallgof i gymryd seibiant o'i ysgrifennu i wneud hyn. Gwnaeth yr un peth yn ystod newyn 1891 pan fu am ddwy flynedd yn gweithio mewn ceginau cawl a chasglu arian i'r newynog yn fyd eang.

Fel eich arwr, fe wnaethoch chithau y Leo arall weithio'n ddygn i gefnogi'r gweithwyr a gwasanaethu'ch cymdeithas yn ystod cyfnodau o dlodi a cholledion creulon dau ryfel byd.

Sylweddolaf fod Tolstoy, wrth iddo ymdrechu'n ddiflino i ganfod atebion i gwestiynau mawr bywyd – beth yw ystyr y cyfan a sut y dylem fyw – wedi cwympo i anobaith dwys. Dyna batrwm eich bywyd chithau, ynte Taid, a Nhad hefyd. Yn 1928 fe wnaethoch chi gefnu ar y *Dinesydd* a thref eich mebyd er mwyn mynd i weithio i elusen ym Mlaenau Ffestiniog. Roedd yn adeg ddirdynnol. Meddech chi:

*"Mae'r byd yn gwgu arnaf nawr,*
*Rwyf bron â chilio mâs.*
*Llifogydd cryfion ddônt i lawr*
*I'm curo'n greulon gas"*

O ddarllen y teyrngedau a roddwyd i chi wedi ichi farw, gwn eich bod wedi cadw'r ffydd drwy'r cyfan. Dywedir i chi gysegru eich holl ddoniau a ffrwyth eich astudiaethau eang i wasanaeth eich Arglwydd, a'ch bod am i Grist fod yn frenin ar eich bywyd i gyd.

### Ymlaen i'r unfed ganrif ar hugain

Rydym ninnau ar yr un bererindod yn y ganrif hon, Taid. Er mor anodd ydi hi, mae egni, gobaith a brwdfrydedd o hyd yng Nghymru. Gwn am weinidogion duwiolfrydig, cydweithio rhwng enwadau, ac arweinyddion sy'n denu plant i garu Crist. Hoffwn gasglu mwy o hanes y pethau cyffrous sy'n digwydd ac os hoffai darllenwyr y golofn hon gysylltu â mi yn uniongyrchol (pelfedowens5657@btinternet.com) efallai y gallwn gyda'n gilydd ddarganfod mwy o dalpiau aur ledled Cymru.

Yna fy mwriad yw defnyddio fy ngholofn i roi llais – fel y gwnaethoch chi yn y *Dinesydd Cymreig* dros ganrif yn ôl – i ledaenu'r newyddion da fel y gall eraill drwom ni adnabod cariad Duw.

*Prydwen*

# Wrth fynd heibio gan William H. Owen

Blwyddyn ddigalon iawn sy'n ein hwynebu yn ôl sawl pesimist. Oherwydd hynny mae'n well peidio edrych ymlaen ati'n ormodol a chofio am yr hyn a wyddom am yr hen flwyddyn a aeth heibio. Nid fod llawer yn honno i roi i ni deimlad o falchder di-ben-draw, mae'n siŵr y gallech gytuno.

Y siom fawr yn 2022 oedd i'n safle yn y byd – byd cwbl artiffisial ar un ystyr – chwalu dros nos. Bu perfformiad tîm pêl-droed Cymru o flaen llygaid y miliynau di-ri yn affwysol o wael. Gellid dadlau fod mynd i Qatar wedi gwneud mwy o ddrwg nag o les i ni fel gwlad na phe baem wedi aros gartref i ganu Yma o Hyd yn ein corlannau ein hunain. Ond gallaf ddychmygu yr hetiau coch-melyn-a-gwyrdd yn chwyrlio i'm cyfeiriad wrth feiddio cynnwys geiriau fel yma!

Mae'n fwy o ofid o bosib i ymgyrch hawliau dynol cefnogwyr Cymru gael llai o ddylanwad wrth i'r tîm cenedlaethol golli ei ffordd yn y gwres. A oedd y wlad a gododd o'r anialwch yn mynd i gymryd cymaint o sylw o blê gwlad fach o bell i fod yr un fath â hi a honno'n methu'n lân â chyflawni mewn gornest fyd-eang?

Anghofiwyd yn fuan am fethiant Cymru ar droad y flwyddyn pan glywyd am farwolaeth Pelé, y chwaraewr pêl-droed perffeithiaf a fu erioed yn ôl y gwybodusion. Gyda hanes ei ddatblygiad yn cyd-daro â hanes pennod aflwyddiannus Cymru yng Nghwpan y Byd yn 1958 roedd gan ei enw ystyr arbennig i ni ar ôl iddo ddangos ei ddawn yn ein herbyn yn Sweden yn 17 oed, a'r byd teledu yn ddu a gwyn.



Mae'n wir mai yn y Cwpan dros Brasil yn 1970 y cafodd ei eneinio i fod yn wir arwr. Wedi hynny y sodrodd ei enw ymhlith dilynwyr pêl-droed yr hollfyd. A'r hyn sy'n annirnad yw fod y to iau, na welodd ef erioed yn chwarae, yn medru mawrygu ei enw fel y gweddill ohonom sydd â brith gof ohono'n dangos ei allu wrth i deledu lliw gyrraedd ein cartrefi.

Yr hyn sy'n ddirgelwch i mi yw fod ei genedl wedi ei godi'n Frenin os nad duw, cyn ac ar ôl ei farwolaeth. Does dim dwywaith nad oedd Pelé yn chwaraewr ac yn gymeriad anghyffredin gyda'i wên gymodlon. Eto, er fy mod yn hoff iawn o bêl-droed nid wyf yn gwbl gyfforddus â'r holl foli cyhoeddus a fu ohono yn ei wlad enedigol. Oedd, roedd ganddo'r ddawn brin o drin pêl fel y gwnâi ond a yw pêl-droediwr gorau'r byd yn haeddu cael ei drin fel sant i'r miloedd droedio heibio'i arch agored? Aeth mwy i stadiwm Santos nag a fu'n talu gwrogaeth i'r Pab Bened XVI yn Eglwys Sant Pedr yn y Fatican.

Mae'n amlwg fod ei famwlad, sy'n trin cicio pêl fel crefydd, o'r farn ei fod yn oruwchnaturiol a pha hawl sydd gan Orllewinwr distadl i amau hynny?


# O'R LLAN

gan y Canon Idris Thomas

Ysgrifennaf hyn o lith ar drothwy blwyddyn newydd arall ac rwyf eisoes yn byseddu dyddiadur 2023.

> "Byddai ein dyddiaduron a'n calendrau ni
> Heb y Crist a'i Apostolion yn foel,
> Cerdd eu traed tragywydd ar eu misoedd hwy;
> Y mae'r Efengyl yn hongian wrth hoel".
> (Gwenallt)

Rwyf wedi gweld gwerth mawr yn yr Almanac neu'r Llithiadur blynyddol a ddarperir gan yr Eglwys yng Nghymru. Caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu lle yn gwbl gyfartal yn y cyhoeddiad ac mae'r cyfan ar-lein ac mewn llyfryn printiedig yn ogystal. Gwelir y cyhoeddiad diddorol hwn ym mhob addoldy Anglicanaidd a hynny yn aml ar y Ddarllenfa. Ynddo enwir Suliau'r Flwyddyn, y Gwyliau mawr crefyddol, y seintiau mawr a bach, y darlleniadau Beiblaidd addas am y bore a'r hwyr, y lliwiau Eglwysig i bob Sul a Gŵyl a llawer, llawer mwy. Aiff tipyn o waith i'w baratoi: mae'n gyhoeddiad hynod drwyadl ac mor ddifyr. Mae'n stôr o wybodaeth angenrheidiol a hebddo ar goll fuaswn fel sawl un arall – dibynnaf arno yn fawr.




Fe wyddoch oll fel darllenwyr mai almanac Thomas Jones oedd y cyntaf i'w gyhoeddi yn Gymraeg yn 1681. Diddorol yn *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* yw'r disgrifiad ohono fel "cyhoeddiad rhad ar ffurf llyfryn clawr papur... ymhlith y cynnwys byddai calendr y flwyddyn gyfredol, darogan y tywydd, astroleg, hysbysebion ffeiriau, gwyliau a llyfrau newydd". Croesewais yn fawr y llyfryn a'r storfa ddefnyddiol a gwerthfawr a geir yn "ALMANAC Y TEULU" pan ymddangosodd yn 1990 o Wasg Carreg Gwalch. Bûm yn pori cymaint drwyddo yng nghwrs y blynyddoedd. Golygydd y llyfr yw Myrddin ap Dafydd a rhydd Twm Elias ei gymorth gwerthfawr gyda dywediadau tywydd a thymhorol. Clasur o gyhoeddiad diddorol.

### Digwyddiadau Mawrth

Gan mai oddeutu mis Mawrth yr ymddengys y rhifyn hwn o'r Gwyliedydd, dewch hefo mi am dro bach i nodi rhai Suliau, Gwyliau a Dyddiau ac ambell i unigolyn cyfarwydd ac anghyfarwydd a grybwyllir yn y mis. Amhosibl yw nodi pawb a phopeth. Ar ôl cofio ein nawddsant ar ddiwrnod cynta'r mis cawn ddeuddydd yn dilyn a elwir yn "DYDDIAU'R CYDGORIAU". Tua chanol y bedwaredd ganrif y ceir y sylw cyntaf amdanynt. Cedwid hwy tua dechrau pob un o bedwar tymor y flwyddyn pan ofynnid am fendith Duw ar y tymhorau ond daethant wedyn yn ddyddiau paratoad ar gyfer ordeinio i urddau sanctaidd. Roedd ymprydio ar un cyfnod yn rhan hanfodol o'r paratoad ar gyfer ordinasiwn sef dilyn yr hyn a ddywedir yn Actau 14 –"penodasant iddynt henuriaid ym mhob eglwys, a'u cyflwyno ar ôl gweddïo ac ymprydio".

### Merched

Ym Mawrth sonnir am y Forwyn Fair, Perpetua, a Non ymysg eraill. Mae yna bum gŵyl i Fair yn ystod y flwyddyn ac enw yr un ar y 25ain o Fawrth yw "CYFARCHIAD Y FORWYN FAIR FENDIGAID" sef modd y cydsyniodd hi i gais Duw trwy ei angel i fod yn Fam ei Fab Gwynfydedig – "bydded i mi yn ôl dy air di". Yn Clychau'r Dalaith dywed Cybi amdani:

> "I'r Fam frenhines, wrth y crud,
> Yn ŵyl ymgrymed mamau byd".

Ar Fawrth y 7fed cofir am ferthyrdod PERPETUA sef gwraig briod dwy ar hugain oed ynghyd â Felicitas ei morwyn, brawd Felicitas a dau gaethwas o ddinas Carthage yng ngogledd Affrica, yn y flwyddyn 203 am eu cred Gristnogol. Mae hanes graffig a dilys y merthyrdod wedi ei ddiogelu. Perpetua oedd yn arwain y fintai fechan i'r cylch dieflig a hynny mewn modd buddugoliaethus lle cawsant eu twlcio mor greulon gan fwystfilod gwyllt a llwglyd i'w marwolaeth. Hyd y diwedd gwrthod gwadu ei ffydd Gristnogol a wnaeth Perpetua. Mae ei dyddiaduron a ysgrifennwyd hyd ei dienyddiad yn un o'r testunau hynaf sydd wedi goroesi gan ferch o Gristion. Onid yw ei henw, Perpetua, sy'n golygu "yn fythol" neu "gwastadol" yn dweud y cyfan amdani.

Yn 1907 canfuwyd bedd Perpetua a'i chyd-ferthyron yng Ngharthage. Darllenai'r gerfysgrif arno "Yma y gorwedd y merthyron Saturus, Saturnincus, Revocatus, Felicitas a Pherpetua a ddioddefodd ar Fawrth 7". Bobol bach, y fath ddewrder dros eu ffydd nes ein hysgwyd ni heddiw hyd ein seiliau.

### Mam ein nawddsant


Rhai dyddiau ar ôl cofio ei mab Dewi cofir am Non ei fam ar y chweched o'r mis a da o beth yw hynny. Pwy oedd hon? Yn niwedd y bumed ganrif yr oedd yn byw ac yn ôl fersiwn Rhygyfarch o Fuchedd Dewi, lleian o Ddyfed oedd Non ac fe'i treisiwyd gan Frenin Ceredigion gyda'r enw Sant. Does dim amheuaeth fod ei bywyd o gysegriad wedi dylanwadu ar ei mab Dewi a phriodol fyddai ei chysylltu â rhai gwragedd cyffelyb megis Monica (fe'i cofir ar Fai y pedwerydd) sef mam Sant Awstin un o brif ysgolheigion yr Eglwys (a gofir ar Awst yr wythfed ar hugain) a hefyd Gwladus mam Sant Cadog (neu Catwg) un o wŷr pennaf yr Eglwys Geltaidd yng Nghymru a gofir ar Fawrth y nawfed ar hugain. Pennill olaf cerdd John Edward Williams "Seintiau" o'i lyfr *Deublyg Amddiffyn* sy'n cloi'r cyfan –

> "Ni fennodd ugain-canrif brith
> Apêl na grym y rhyfedd Un
> Cans beunydd cwrddaf â seintiau praff
> O dan eu loes sy'n dwyn ei lun."



# MAE SIARAD YN LLESOL

***gan Glyn Tomos***



Wyddoch chi ddim pwy sydd yn gwrando nac ychwaith be ydy effaith eich geiriau ar eraill.

Dyna ddaeth i'm cof wrth gofio am un profiad a gefais ar ddiwedd un oedfa hwyrol flynyddoedd maith yn ôl bellach. Myfyriwr am y weinidogaeth oeddwn ar y pryd ac wedi derbyn gwahoddiad i arwain gwasanaeth mewn Eglwys wledig. Wrth i bawb ddechrau hwylio am adra dyma ofyn a oedd rhywun angen lifft. Derbyniodd un wraig oedrannus y cynnig, ac wrth i ni fynd yn y car dywedodd mor ddiolchgar oedd hi am sylw a wnes yn ystod y gwasanaeth a bod hynny wedi bod o fudd mawr iddi. Ni rannodd pa sylw oedd hynny a'i hawl hi oedd cadw hynny yn gyfrinachol.

Tydan ni byth yn gwybod be sydd ar feddwl unrhyw un ar unrhyw adeg. Mae rhai yn fwy llafar na'i gilydd tra bod eraill yn ddistaw ac yn dymuno cadw eu teimladau iddyn nhw eu hunain. Yr hyn sydd yn bwysig yw ein bod yn dangos cariad yn ein hymwneud gyda phawb, ac fe all hynny olygu cyfarchiad digon cyffredin fel bore da neu pnawn da. Gall ychydig eiriau o'r fath fod yn fodd i godi calon nifer o bobl a phwy a ŵyr, arwain at sgwrs neu roi cyfle i eraill gynnig yr un cyfarchion i ni.


Roeddwn yn ffan mawr o'r hysbyseb gan BT, oedd yn dweud pa mor dda ydy ein bod yn siarad (*'It's good to talk'*). Wrth gwrs roedd gan BT reswm masnachol ariannol mawr tu ôl i hyn, ond i mi mae yn neges bwysig i bob un ohonom beth bynnag yw ein hamgylchiadau. Meddyliwch gymaint o gysur a gwahaniaeth yn feddyliol y byddai cyfarchiad neu sgwrs yn ei wneud i filoedd sydd yn byw ar ben eu hunain a ddim yn dod i gysylltiad ag unrhyw un. Ac ydy, mae sgwrs ar y ffôn yn gallu bod yr un mor werthfawr os nad yw rhywun yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb.

Er cydnabod haelioni anferthol unigolion a chymdeithasau sydd yn codi miliynau o bunnoedd tuag at bob math o achosion da, rhaid cofio bod neilltuo amser i siarad ag eraill yr un mor werthfawr i nifer helaeth o bobl – boed yn blant neu'n oedolion. Er bod amser wedi mynd yn beth prin i nifer ohonom gan ein bod mor brysur, i eraill mae sgwrs neu gyfarchiad byr yn gallu gwneud byd o wahaniaeth a chyfoethogi bywyd, os mai dim ond am ychydig eiliadau neu funudau y pery.

Bydd Dydd Santes Dwynwen wedi mynd heibio erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn a Gŵyl Dewi Sant yn agosáu. Mae'r ddau achlysur yma yn gyfle i ni ddangos cariad tuag at ein gilydd, a bydd gwneud y pethau bychain fel cyfarchiad neu sgwrs fer yn gwneud mwy o wahaniaeth nag y tybiwn. Ydy, mae'n dda siarad gyda'n gilydd.




# TUDALEN Y PLANT



## Salm 23, beibl.net

Yr ARGLWYDD ydy fy mugail i;
mae gen i bopeth dwi angen.
Mae'n mynd â fi i orwedd mewn porfa hyfryd;
ac yn fy arwain at ddŵr glân sy'n llifo'n dawel.
Mae'n rhoi bywyd newydd i mi,
ac yn dangos i mi'r ffordd iawn i fynd.
Ydy, mae e'n enwog am ei ofal.
Hyd yn oed mewn ceunant tywyll dychrynllyd,
fydd gen i ddim ofn, am dy fod ti gyda mi.
Mae dy ffon a dy bastwn yn fy amddiffyn i.
Rwyt ti'n paratoi gwledd i mi
ac mae fy ngelynion yn gorfod gwylio.
Rwyt ti'n tywallt olew ar fy mhen.
Mae gen i fwy na digon!
Bydd dy ddaioni a dy ofal ffyddlon
gyda mi weddill fy mywyd.
A byddaf yn byw eto yn nhŷ'r ARGLWYDD
am byth.

LLUNIAU: BIBLE FREE IMAGES



Mae 12 gwahaniaeth rhwng y ddau lun yma. Beth am gael hyd i bob un ohonyn nhw?